Gofal Cymdeithasol Oedolion

Strategaeth Gyfranogi a Chynnwys 2008-2011

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Adult Social Care
Gofal Cymdeithasol Oedolion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac ieithoedd eraill ar gais. Mae ar gael hefyd ar ffurfiau hygyrch gan gynnwys print bras, Braille, casét sain, CD sain, DVD BSL, *easy read* a .pdf.

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01978 298615 (i gael *Typetalk* o ffôn testun deialwch 18001 neu 18002 os ydych yn clywed ac yna'r rhif ffôn), ffacs 01978 298029, e-bost commissioning@wrecsam.gov.uk neu ysgrifennwch at y Tîm Comisiynu a Phartneriaethau, Adran Gofal Cymdeithasol Oedolion, Ail Lawr, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam, LL13 8BG

1. Cyflwyniad:

Mae'r Adran Gofal Cymdeithasol (yr Adran) yn darparu pob math o wasanaethau ar gyfer pobl Wrecsam. Mae'n bwysig bod gan y cyhoedd, pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalwyr, ffordd amlwg o rannu eu barn a'u sylwadau ynghylch yr hyn a wnawn a chymryd rhan mewn llunio'r gwasanaethau a gânt. Er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, rydym wedi comisiynu Strategaeth Gyfranogi a Chynnwys 2008-2011.

Ysgrifennwyd y strategaeth hon ar gyfer:

Defnyddwyr Gwasanaethau:
Pobl sydd ar hyn o bryd yn defnyddio, darpar ddefnyddwyr, neu'r rhai sy'n gofalu am bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac sy'n cael eu darparu gan yr Adran.

Darparwyr Gwasanaethau
Pobl sy'n cynllunio a chyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sector statudol, annibynnol a gwirfoddol.

Mae'r strategaeth yn adlewyrchu ymrwymiad yr Adran i gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac mae'n cyflwyno'r egwyddorion a phrosesau sylfaenol ar gyfer sicrhau cyflawni'r ymrwymiad hwn.

2. Gweledigaeth:

Erbyn 2011 bydd yr Adran Gofal Cymdeithasol wedi buddsoddi mewn seilwaith cefnogol sy'n galluogi unigolion, cymunedau a grwpiau gyfranogi'n llawn ymhob agwedd ar gynllunio, dylunio a chyflenwi gwasanaethau.

3. Cynlluniau Cydraddoldeb Corfforaethol:

Mae'r strategaeth hon yn un o nifer o ddogfennau allweddol sy'n sail i gyflawni cynlluniau cydraddoldeb y Cyngor sy'n dangos sut fydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r dyletswyddau hil, anabledd a chydraddoldeb y rhywiau sydd ar gyrff cyhoeddus trwy Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000, Deddf Anffafrio'r Anabl 2005 a Deddf Cydraddoldeb 2006.

Rydym yn ymrwymo i gyfle cyfartal i bawb a, thrwy'r strategaeth hon, yn anelu at sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr yn cael eu trin yn deg a chyda pharch.

4. Y Cyd-destun Lleol:

Mae Wrecsam yn gartref i ryw 130,000 o bobl, gyda thraean y boblogaeth yn byw yng nghanol y dref a'r cyffiniau a dwy ran o dair yn byw yn y cylch.

Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae gan dros 20% o'r boblogaeth anabledd, mae dros 1% yn perthyn i grwpiau ethnig du neu leiafrifol a dywedodd 68% eu bod yn Gristnogion. Cadarnhaodd y Cyfrifiad hefyd fod ychydig yn fwy o fenywod na gwrywod a bod y bobl yn byw yn hwy. Erbyn y flwyddyn 2020 y disgwyl yw y bydd mwy o bobl dros 80 oed nag erioed o'r blaen.

Yn ôl Stonewall mae tuag un o bob deg o'r boblogaeth leol yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol. Mae poblogaeth Wrecsam yn tyfu o dipyn i beth ac, yn fwy diweddar, gwelwyd twf chwim yn nifer y gweithwyr mudol o wladwriaethau Ewrop sy'n byw ac yn gweithio yn y cylch.

Ni all y Cyfrifiad a ffynonellau ystadegau eraill ond rhoi syniad o broffil y boblogaeth yn hytrach na darlun ystadegol manwl gywir o holl grwpiau i ni allu mesur yr amrywiol feysydd cydraddoldeb gyferbyn â hwy. Nid oes modd mesur yn llawn y boblogaeth a phatrymau symud, byrhoedledd neu ymfudo.

Yr hyn a wyddom yw bod Wrecsam yn fwy amrywiol nag erioed o'r blaen a bod rhaid i ni ymateb i anghenion newidiol ein poblogaeth fel corff cyhoeddus,.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i gydraddoldeb i bawb ac mae ganddo Gynlluniau Cydraddoldeb y Rhywiau, Anabledd a Hil sy'n nodi sut fydd yn cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb priodol ac yn rhoi sylw i anghenion amrywiol y boblogaeth leol. Byddwn yn defnyddio asesiadau effaith i asesu sut allai'r hyn a wnawn neu a fwriadwn ei wneud effeithio ar y boblogaeth leol a defnyddio arolygu cydraddoldeb i helpu i ni fesur ein cynnydd a deall a yw ein polisïau a'n cynlluniau'n gweithio fel y bwriadwyd. Hyfforddiant cydraddoldeb a chynyddu ymwybyddiaeth effeithiol sy'n sail i'n holl gynlluniau a bwriadau.

5. Cyd-destun Strategol:

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru o wasanaethau cyhoeddus sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd yn ôl adolygiad Beecham o wasanaethau cyhoeddus, "Creu'r Cysylltiadau", a'r strategaethau allweddol, "Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol" a "Cynllun Oes":

Creu'r Cysylltiadau
Mae'r adolygiad yn amlinellu pedair prif egwyddor:

- Dinasyddion yn y Canol: gwasanaethau i fod yn fwy ymatebol i ddefnyddwyr gwasanaethau; pobl a chymunedau i fod yn rhan o ddylunio sut mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi.
- Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: pawb i gael cyfle i gyfrannu.
- Cydweithio fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru: mwy o gydgysylltu rhwng darparwyr i gyflenwi gwasanaethau cynaliadwy, ymatebol ac o safon.
- Gwerth am yr Arian: manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau.

Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol
Mae'r strategaeth yn cyflwyno themâu allweddol a chyfeiriad gwasanaethau cymdeithasol rhwng 2008 a 2018. Y bwriad yw sicrhau bod safonau gofal cymdeithasol yn gyson ar draws holl wasanaethau. Y nodau allweddol yw:

- Datblygu'r gallu i beri newid ac atgyfnerthu'r gweithlu.
- Gweld bod llais defnyddiwr y gwasanaeth a'r gofalwr yn cyfrif go iawn.
- Atgyfnerthu rheolaeth dros berfformiad a chraffu mwy.
- Hyrwyddo partneriaethau cryfach sy'n gweithio ar draws ffiniau trefnyddol.

Cynllun Oes
Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer creu gofal iechyd a cymdeithasol di-ail yng Nghymru'r 21ain ganrif. Yn sail iddo mae tri nod: iechyd gydol oes; gwasanaethau cyflym, diogel ac effeithiol; a gofal di-ail. Mae'r nodau hyn yn cael eu gweithredu trwy dri fframwaith strategol 3 blynedd:

- Ailgynllunio Gofal 2005-08 – Cynnwys y Cyhoedd – amcanion 3 blynedd – atal- mynediad-gwasanaethau
- Safonau Uwch 2008-11 – Ailganolbwyntio ar ffyniant ac anghydraddoldebau iechyd – datblygu'r gweithlu – targedau perthnasol yn glinigol
- Sicrhau Ymgysylltu Llawn 2011-14 – Ymgysylltu ag unigolion a chymunedau – Ail-lunio gwasanaethau – Darpariaeth ddiwnïad – Arfer ar sail tystiolaeth – Gwneud yn well

Mae'r strategaeth hon yn ceisio adlewyrchu'r ymrwymiadau craidd ar gyfer cyfranogi a chynnwys fel yr amlinellwyd yn y dogfennau hyn a'r rhai yn y llyfryddiaeth.

6. Nod ac Amcanion

Nod y Strategaeth hon yw rhoi cyfarwyddyd i'r Adran, ei staff a phartneriaid wrth gydgysylltu cyfranogiad a chynnwys y rhai sy'n defnyddio Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

Mae'r gwasanaethau a ddarparwn mor neilltuol â'r bobl sy'n eu defnyddio. O ganlyniad bydd angen i bob isadran o'r Adran ymateb yn y ffordd fwyaf priodol i gynnwys defnyddwyr ei wasanaeth wrth lunio eu gwasanaethau. Fel Adran, ein hamcanion strategol yw:

- Sicrhau bod gweithlu gofal cymdeithasol yn dangos gwerthoedd cyfranogiad a chynnwys yn ei holl weithgareddau.
- Datblygu seilwaith cydgysylltiedig a hygyrch er mwyn cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr a'u cael ei gyfranogi mewn datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Sicrhau bod y sylwadau y bydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn eu rhannu gyda ni'n dylanwadu gwaith yr Adran a datblygu'r gwasanaeth.

Mae'r Strategaeth hon yn ceisio sefydlu seilwaith di-dor sy'n cefnogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gyfranogi mewn cloriannu, dylunio a llunio'r gwasanaethau a gânt (gwelwch gynrychiolaeth weledol o'r seilwaith ar dudalen 10).

Gall rhwystrau fod yn neilltuol iawn ac mae'n bwysig deall y gall nifer o ffactorau greu rhwystr nad yw'n amlwg ar unwaith i eraill. Gall rhwystrau fod yn gorfforol, diwylliannol, ymarferol, agweddol, canfyddiadol neu â'u gwraidd mewn ofn, gwewyr meddwl, ddiffyg hyder neu ddiffyg dealltwriaeth. Nod y strategaeth hon yw rhoi mwy o ddylanwad a grym i bobl leol a chymunedau lleol wella eu bywydau trwy chwalu rhwystrau i gyfranogiad.

7. Gwerthoedd:

Mae'r Adran yn derbyn nad yw cynnwys pobl yn ddiben ynddo'i hun ond yn ddechrau proses o ddatblygu a chynnal gwelliannau i wasanaethau. Felly, fel Adran, rydym yn ymrwymo i'r canlynol:

1. Hawl pawb i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
2. Datblygu perthynas sy'n cael ei hadeiladu ar ddiffuantrwydd a didwylledd, sy'n parchu profiadau bywyd, disgwyliadau, gwybodaeth a medrusrwydd sydd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.
3. Newid sut fyddwn yn gweithio ac yn ymwneud â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u gofalwyr, ar sail yr hyn a ddywedant am eu gwasanaethau.
4. Dysgu trwy'r hyn a wnawn gyda'n gilydd er mwyn ymateb yn well wrth ddatblygu cyfranogiad ystyrlon a phriodol y bobl a wasanaethwn.
5. Dweud wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sut mae eu cyfranogiad wedi helpu siapio'r hyn a wna'r Adran.
6. Parchu amrywiaeth defnyddwyr ein gwasanaeth a gwneud popeth a allwn i hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch ym mhob un o'n polisïau, trefnau a rhyngweithiadau gyda'r cyhoedd.

Rhaid i ni gydnabod na fydd pawb eisiau cyfranogi nac ymwneud â llunio gwasanaethau. Mae'n bwysig ein bod yn deall y gwahaniaeth rhwng "dewis peidio" ac allgáu, pa mor anfwriadol bynnag. Rhaid i ni gymryd camau penodol i hyrwyddo arferion cynhwysol. Mae angen i gyfle cyfartal fod yn wirionedd i bawb heb ystyried eu hil, rhyw, anabledd, oed, crefydd neu gred, a rhaid sicrhau nad ydym yn creu, cynnal nac anwybyddu rhwystrau all fod.

Byddwn yn sicrhau yr hyfforddwyd staff yn dda mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth a bod anghenion gwahanol grwpiau'n cael eu deall ac yn cael sylw.

8. Safonau Cyfranogi:

Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr y sector statudol a'r 3ydd sector ynghylch cyfranogi a chynnwys yn Wrecsam trwy Seminar Gwrando ac Ymateb 2007. Datblygwyd y Safonau Cyfranogi canlynol o'r ymateb i Seminar Gwrando ac Ymateb.

Wrth weithredu'r Strategaeth hon bydd yr Adran, a phob gwasanaeth ynddi, yn dilyn y Safonau ar gynnwys a chyfranogi. Y Safonau hyn yw meincnod yr Adran ar gyfer asesu sut mae'n gwneud o ran cyfranogi a chynnwys.

1. Bydd pob gwasanaeth o fewn yr Adran yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael cyfle i fynegi eu barn.
2. Mae angen bod cyfle cyfartal i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau i atal cyfranogiad. Gall hyn gynnwys rhwystrau corfforol, ymarferol, canfyddiadol neu ddiwylliannol. Yn ymarferol mae hyn yn golygu dewis lleoliad ac amseroedd cyfarfodydd yn ofalus, sut gaiff gwybodaeth ei chyflwyno, a pha mor berthnasol a hygyrch yw.
3. Rhaid rhoi digon o amser i hysbysu'r rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfranogi a chynnwys ac i wneud unrhyw sylwadau a hefyd i gloriannu'r prosesau cyfranogi.
4. Bydd pobl yn cael cefnogaeth i ddeall maint eu cyfranogiad, ar gyfer beth fydd eu barn yn cael ei defnyddio ac i ba raddau y gallant beri newid ar ddechrau, a thrwy gydol, unrhyw broses gyfranogi.
5. Ar ddechrau unrhyw broses gomisiynu a chontractio bydd adrannau priodol "Cist Offer Rheoli Prosiectau Gofal Cymdeithasol" yn cael eu defnyddio i eglurhau sut fydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â'r broses.
6. Bydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n ymwneud ag adolygu, cynllunio a llunio gwasanaethau'n cael cyfle i nodi pa anghenion sydd ganddynt i allu cyfranogi'n llawn a bydd unrhyw wybodaeth neu hyfforddiant angenrheidiol yn cael eu darparu i'w cefnogi.
7. Wrth gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr byddwn yn ceisio sicrhau ei fod yn cael ei gydgysylltu o fewn yr Adran, gyda grwpiau perthnasol eraill a chyda sefydliadau partner.
8. Bydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â denu a hyfforddi staff gofal cymdeithasol yn y ffyrdd mwyaf priodol.
9. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan mewn unrhyw brosesau cyfranogi'n cael atborth llawn ac amserol ar y canlyniadau.
10. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi a chynnwys yn cael cefnogaeth i hawlio ad-dalu treuliau, o fewn terfynau polisi cytûn.

9. Cyd-destun Gofal Cymdeithasol Oedolion:

Roedd Cloriannu Perfformiad Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) 2006 yn cydnabod fod yr Adran wedi gwneud nifer o welliannau o ran cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau ers Cyd-adolygiad 2004. Fodd bynnag, roedd yn argymell bod angen gwneud mwy o waith i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau yng nghynllunio ac adolygu gwasanaethau. Ar ben hynny, roedd angen arolygu a chloriannu'r prosesau cyfranogi a chynnwys yn effeithiol.

Yn barod ar gyfer y strategaeth hon, archwiliwyd agweddau ar waith yr Adran i ystyried sut rydym yn cefnogi cyfranogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Dangosodd yr archwiliad bod gan yr Adran enghreifftiau o gipio tystiolaeth ac atborth o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr unigol trwy asesiadau; adolygiadau'n canolbwyntio ar yr unigolyn, holiaduron, cyfarfodydd cyhoeddus, arolygon a'r arolygon blynyddol, ac ati. Ar ben hynny mae enghreifftiau o fforymau, grwpiau cyfeirio, grwpiau rhaglen, grwpiau defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n rhoi atborth i gynorthwyo llunio a dylanwadu ar eu meysydd gwasanaeth cysylltiedig.

Fodd bynnag, dangosodd yr archwiliad Adrannol nad yw cyfranogi a chynnwys yn cael eu cydgysylltu'n ffurfiol yn yr Adran. O ganlyniad mae diffyg agwedd drefnus at rwydweithiau cyfranogiad defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwr sy'n bodoli. O ganlyniad, nid yw'r prosesau ar gyfer dangos gwelliannau a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu crynhoi na'u rhannu ar draws yr Adran o fewn strwythur atborth ffurfiol.

Mae diffyg strwythur ffurfiol yn effeithio ar gasglu adborth ynghylch gwasanaethau ac anghenion heb eu diwallu. Dangosodd yr archwiliad Adrannol enghreifftiau cyfyngedig o hyfforddiant yn cael ei roi i'r staff a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ddatblygu eu sgiliau cyfranogi a chynnwys. Fel Adran mae angen i ni gyfleu i'n staff bwysigrwydd eu swyddogaeth wrth gasglu atborth ynghylch gwasanaethau ac anghenion heb eu diwallu a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth lunio'r gwasanaethau a ddarparant.

10. Datblygu Cyfranogi a Chynnwys:

Fel Adran rydym eisiau sicrhau bod ein strwythurau a dulliau cyfranogi a chynnwys yn hyrwyddo deialog parhaol gyda defnyddwyr gwasanaethau unigol, gofalwyr, grwpiau a'u cynrychiolwyr. Y nod yw deall safbwyntiau ein gilydd a chydweithio i nodi blaenoriaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni.

Ym mis Mehefin 2007, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru "Chwalu'r Rhwystrau" i nodi pa amgylchiadau sydd angen iddynt fodoli i fewnosod cyfranogi effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil fod angen cael ymrwymiad i gyfranogi o fewn sefydliadau, strwythur effeithiol i sicrhau datblygu cyfranogiad a defnyddio ei fuddiannau. Ar ben hynny dylai staff fod â'r sgiliau i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogi a gwybod sut i ddefnyddio'r strwythur atborth.

Mae "Ysgol Gyfranogi" Sherry Arnstein wedi bod yn ddefnyddiol i ddangos gwahanol haenau cyfranogiad. Mae'r Ysgol yn helpu i ni ystyried ym mha haen y gall cyfranogiad ddigwydd a meddwl pa mor ystyrlon yw cyfranogiad. Mae'n hanfodol ar ddechrau pob cyfnod bod maint y cyfranogiad yn cael ei wneud yn glir.

Haen 4 Cefnogi Gweithrediadau Pobl Eraill
Yn yr haen hon bydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cymryd rhan flaenllaw ac yn rheoli penderfyniadau allweddol ynghylch sut bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi.

Haen 3 – Gweithredu Gyda'n Gilydd
Yn yr haen hon rydych yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr weithio gyda chi ymhob agwedd ar gynllunio a phenderfynu.

Haen 2 – Ymgynghori
Yn yr haen hon rydych yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr am eu barn a'u sylwadau fel y gallant ysbrydoli unrhyw benderfyniadau a wneir.

Haen 1 - Hysbysu
Yn yr haen hon rydych yn dweud wrth bobl am wasanaethau a'r penderfyniadau a wnaethoch eisoes. Ni allant ddylanwadu ar y penderfyniadau yn yr haen hon.

Addasiad o Arnstein "Ladder of Participation"
yn CSSIW "Performance Management Workbook")

Mae pob haen yn defnyddio gwahanol ffyrdd o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Bydd y dulliau sy'n cael eu defnyddio'n penderfynu nifer ac amrywiaeth y bobl fydd yn cael eu cynnwys, y wybodaeth i'w chasglu a'r adnoddau sydd eu hangen. Mae'n bwysig dewis faint o gyfranogiad a'r dulliau cynnwys sy'n briodol i'r bobl dan sylw.

Mae gwybodaeth yn gam cyntaf pwysig wrth gyfathrebu gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn rhoi grym i bobl trwy helpu iddynt ddeall sut mae ein gwasanaethau'n effeithio arnynt fel unigolion. Mae rhoi gwybodaeth i bobl am wasanaethau a sut mae gwasanaeth yn mynd i newid yn gadael iddynt wneud dewisiadau ynghylch sut fyddant yn defnyddio ein gwasanaethau a'r hyn maent am ei ddweud amdanynt.

Mae angen rhoi gwybodaeth i bobl fel eu bod yn deall beth sy'n cael ei drafod a sut fydd yn effeithio arnynt. Mae llawer o ffyrdd o ddweud wrth bobl am wasanaethau: anfon llythyr, taflenni, posteri, cyfarfodydd cyhoeddus i ddweud wrth bobl am y penderfyniadau a wnaeth yr Adran. Enghraifft o arferion da yn yr haen hon yw:

Haen 1 – Hysbysu
Haen 2 – Ymgynghori

Gwybodaeth ar Ffurfiau Hygyrch:
Gall y Tîm Comisiynu a Chynllunio roi gwybodaeth ar ffurfiau hygyrch gan gynnwys: Print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain, tâp sain a chryno-ddisgiau sain, neu CD i gynorthwyo anghenion cyfathrebu.

Yn ogystal gall y tîm roi gwybodaeth hefyd yn y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd eraill a gall drefnu dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain neu gyfieithydd arall i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Fel Adran rydym eisiau cael barn pobl ar lawer o faterion yn ymwneud â'u gwasanaethau i helpu i ni gloriannu, datblygu a chynllunio gwasanaethau at y dyfodol. Ymgynghori yw cael a thrafod barn a sylwadau amrywiaeth o bobl ar ein gwasanaethau.

Dylai ymgynghori fod yn agored a chlir fel bod pobl yn deall yr hyn y mae eisiau iddynt fynegi barn arno. Mae atborth yn elfen bwysig o'r haen hon. Mae'n dangos i bobl sut mae eu barn a'u sylwadau wedi gwneud gwahaniaeth. Mae hefyd yn dweud wrth bobl beth fydd yn digwydd nesaf. Os nad yw pobl yn cael atborth teimlant yn aml na wrandawyd ar eu barn. Rydym yn cydnabod fod canlyniad ymgynghori'n dibynnu ar bwy sy'n cael eu holi yn y lle cyntaf. Mae arolygu cydraddoldeb yn ganolog i helpu i ni ddeall a yw ymgynghori'n gynrychiadol a chynhwysol.

Rhai enghreifftiau o ddulliau ymgynghori o fewn yr Adran yn yr haen hon yw: Arolwg Blynyddol Bodlonrwydd Cwsmeriaid, holiaduron, Asesiadau Unedig, grwpiau canolbwyntio, cyfweliadau wyneb yn wyneb, cyfweliadau ffôn. Enghraifft o arferion da yn yr haen hon yw:

Ymateb Cwsmeriaid:
Mae trefn Ymateb Cwsmeriaid yr Adran yn cofnodi cwynion, sylwadau, canmoliaeth a phryderon y cyhoedd. Caiff rheolwyr gwasanaeth glywed am y materion neu awgrymiadau sy'n cael eu derbyn ac mae'r rhain yn cynorthwyo ysbrydoli cynllunio gwasanaethau.

Cydweithio yw gofyn i bobl fod yn bartneriaid a rhannu sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae pobl eisiau dylanwadu ar y gwasanaethau uniongyrchol sy'n effeithio ar eu bywydau, a gall eraill fod eisiau ymwneud â dylanwadu ar gynllunio a chyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol. Trwy weithio gyda'n gilydd dylai pobl allu dylanwadu ar wasanaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol trwy fod ar fyrddau partneriaeth strategol, cyfarfodydd cynllunio, paneli a grwpiau cyfeirio, ymweld â safleoedd gyda'i gilydd, bod ar baneli cyfweld neu ddarparu hyfforddiant.

Haen 4 – Cefnogi Gweithredu Pobl Eraill

Mae angen bod creu cyfleoedd i gydweithio'n rhan o wasanaethau'r Adran. Ni ddylem dybio mai ni sy'n gwybod orau ac nad yw pobl eisiau cyfranogi. Rhaid i ni fod yn deimladol o anghenion, diwylliannau a gwerthoedd amrywiol defnyddwyr gwasanaethau a thalu sylw arbennig i wahanol anghenion pobl wahanol os ydym i hybu cyfranogiad ymhlith grwpiau sy'n llai hyderus neu'n fwy unig a grwpiau lleiafrifol. Mae angen i ni chwilio am ffyrdd creadigol o gefnogi pobl i reoli cyflenwi ein gwasanaethau o ddydd i ddydd. Rhai enghreifftiau sy'n cael eu defnyddio yn yr haen hon:

Grwpiau Rhaglen:
Mae'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant yn cyflwyno gweledigaeth drosfwaol a chyfeiriad gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Wrecsam. Un o'r ffyrdd y mae barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cynorthwyo ysbrydoli'r Strategaeth Ffyniant yw trwy gymryd rhan yn ei Grwpiau Rhaglen.

Mae pump o Grwpiau Rhaglen, i gyd yn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer eu meysydd gwaith penodol. Mae gwaith y Grwpiau'n dylanwadu ar gomisiynu gwasanaethau, dylunio gwasanaethau a strategaethau. Daw aelodau'r Grwpiau o asiantaethau statudol, y sector gwirfoddol, defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr gofalwyr.

Gweithgorau, Grwpiau Gorchwyl a Gorffen:
Mae gweithgorau, sy'n cael eu galwo'n grwpiau cyfeirio a grwpiau llywio hefyd, yn perthyn i wasanaethau penodol a'u datblygiad. Cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n gyfrifol am gasglu barn ar wasanaethau a hysbysu'r grŵp. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen yn perthyn i un prosiect, gwahanol ddarn o waith lle bydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â'r prosesau penderfynu.

Yn yr haen hon defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yw perchenogion ac sy'n rheoli'r strwythurau a rhwydweithiau cysylltiedig â'r gwasanaethau a gânt. Mae'r Adran yn rhoi cymorth ariannol, cefnogaeth staff a chyfarwyddyd er mwyn iddynt allu gweithredu. Fodd bynnag, mae defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr yn cadw rheolaeth a pherchenogaeth y gweithgareddau.

Mae cyfranogi a chynnwys yn ceisio rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaethau weithredu ar eu rhan eu hunain a phobl eraill sy'n derbyn gwasanaethau. Mae cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan flaenllaw yn helpu gwasanaethau i fod yn fwy ymatebol i anghenion arbennig pobl.
Yn yr haen hon, dylai'r Adran fod yn ymwybodol o'r rhwystrau sy'n analluogi pobl a'u herio a chefnogi defnyddwyr gwasanaethau i reoli ac arwain o fewn amgylchedd eu gwasanaeth eu hunain.

Rhai enghreifftiau sy'n cael eu defnyddio yn yr haen hon yw: Taliadau Uniongyrchol, Cefnogaeth Hunangyfeiriedig, defnyddwyr gwasanaethau yn arwain eu hasesiadau eu hunain, defnyddwyr gwasanaethau'n cadeirio cyfarfodydd ac yn rheoli sut mae gwasanaeth yn cael ei gyflenwi. Enghraifft o arferion da defnyddiodd yn yr haen hon yw:

Mudiadau Gwirfoddol a Chymunedol (Trydydd Sector)

Gwirwyr Ansawdd Safonau REACH
Cyhoeddwyd Safonau REACH gan Paradigm, un o sefydliadau ymgynghoriaeth gwasanaeth dynol a hyfforddi arweiniol Ewrop sy'n darparu amrywiaeth o gefnogaeth hollol addas, gan gynorthwyo pobl gydag anableddau dysgu i adeiladu dyfodol cynhwysol. Bwriad ei safonau oedd creu proses wella ansawdd ar gyfer darparwyr byw gyda chymorth.

Mae Defnyddwyr Gwasanaethau o fewn Anableddau Dysgu'n cael eu hyfforddi fel Gwirwyr Ansawdd ar gyfer Safonau REACH. Bydd y Gwirwyr Ansawdd yn defnyddio'r 10 safon i asesu ansawdd gwasanaeth byw gyda chymorth yr Adran.

Mae'r Gwirwyr Ansawdd yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio gwasanaethau; mae defnyddwyr gwasanaethau'n gallu rhannu eu profiad o wasanaethau a'r a fynnant ganddynt. Caiff y wybodaeth sy'n dod o'r adolygiadau ei hymgorffori yn y cynlluniau gwasanaeth o fewn Anableddau Dysgu.

Mae'r Adran yn contractio nifer o fudiadau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Fel Adran mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael cyfle i'w gael eu cynnwys a chyfranogi wrth lunio'r gwasanaethau hyn.

Mae gan lawer o'r mudiadau hyn ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ar eu byrddau rheoli ac ymddiriedolwr ac maent yn gallu addasu'r gwasanaethau a ddarparant. Er eu bod yn fudiadau annibynnol ac ar wahân i'r Adran, maent yn bartneriaid pwysig wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

Man cychwyn rhai sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau oedd ymgyrchu dros hawliau'r sector y maent yn gweithio ynddo. Caiff nifer ohonynt eu gwahodd i rannu eu barn mewn ymgynghoriadau a fforymau. Mae'n bwysig ein bod fel Adran yn glir ynghylch yr hyn sydd i'w ddisgwyl gan y grwpiau hyn a'r hyn a ddisgwyliant gennym ni. Ar ben hynny rhaid iddynt allu dangos eu rhwydwaith cyfranogi a chynnwys i ddefnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr y gofynnwyd iddynt eu cynrychioli. Mae gofyn iddynt gipio,

dadansoddi a rhoi manylion o arolygu cydraddoldeb yn ffordd allweddol o ddangos pa mor effeithiol ydynt am ddenu pobl leol.

Rhai enghreifftiau o grwpiau'n gweithredu yn yr haen hon fyddai: Y Cyngor Henoed, Gwasanaethau Eiriol, NEWCIS a Chymdeithas Alzheimer.

11. Strwythur Gofynnol:



Nod y strategaeth yw sefydlu seilwaith di-dor sy'n cefnogi'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i gymryd rhan mewn cloriannu, dylunio a llunio'r gwasanaethau a gânt.

12. Cyfrifoldebau Adrannol

Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol

Dyletswydd i ddangos cyfranogiad a chydraddoldeb defnyddiwr gwasanaethau a gofalwr yng ngwaith yr Adran.

Tîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol

- Rhoi arweiniad a chyfarwyddyd clir ynghylch swyddogaeth, diben a phwysigrwydd cyfranogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Sicrhau bod gweithgaredd cyfranogi a chynnwys yn cael ei gynnal a'i wella.
- Sicrhau bod adnoddau angenrheidiol ar gael i sicrhau'r buddiannau mwyaf o gyfranogi a chynnwys.
- Sicrhau bod barn defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn llunio a dylanwadu ar gyflenwi a chynllunio gwasanaethau.

Grŵp Cydraddoldeb Adrannol

Sicrhau bod ymateb cwsmeriaid o fewn gofal oedolion yn cyrraedd safonau corfforaethol ar arolygu cydraddoldeb.

Adran Hyfforddiant

Datblygu hyfforddiant cyfranogi a chynnwys.

Asesu'r cymwyseddau gofynnol a nodi hyfforddiant sgiliau ar gyfer staff a defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfranogi a chynnwys.

Sicrhau bod hyfforddiant cyfranogi a chynnwys a hyfforddiant arolygu cydraddoldeb ar gael i'r staff.

Grŵp Atborth Arolygu Sicrwydd Ansawdd

Cadw golwg ar y "Strategaeth Gyfranogi a Chynnwys" a'i gweithrediad trwy gynlluniau busnes gwasanaethau.

Arolygu a chloriannu perfformiad arferion cyfranogi a chynnwys o fewn yr Adran.

Cyfleu arferion da mewn cysylltiad â chyfranogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yng ngwaith yr Adran.

Crynhoi a chydgysylltu rhannu gwybodaeth yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau i ysbrydoli cynllunio a chomisiynu a datblygu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Ffyniant a gwaith ei grwpiau cynllunio.

Cefnogi datblygiad hyfforddiant a chynllunio cyfranogi a chynnwys.

Rheolwyr Gwasanaeth

Sicrhau cyfranogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr wrth gyflenwi gwasanaethau a bod staff yn ymwybodol o'i bwysigrwydd.

Sicrhau arolygu cydraddoldeb gweithgareddau cyfranogi a chynnwys.

Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â chyfranogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn effeithiol.

Adolygu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwr ymhob haen wrth gyflenwi gwasanaethau a chanfod anghenion hyfforddi.

Datblygu gwasanaethau seiliedig ar dystiolaeth o arferion da.

Sicrhau bod Cynlluniau Busnes yn manylu, fel bo angen, sut fydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â chynllunio ac adolygu gwasanaethau.

Hybu gwelliant parhaol, yn enwedig trwy hybu gallu defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i ddylanwadu ar a rheoli cynllunio a chyflwyno gwasanaethau trwy bartneriaeth a chydweithio.

13. Camau Gweithredu

Er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Adran ar gyfranogi a chynnwys, byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill. Bydd y gwerthoedd, ymrwymiadau a safonau yn y strategaeth hon yn sail i'n holl waith fel Adran a'r rhai yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â hwy.

Bydd meysydd datblygu allweddol am y tair blynedd nesaf yn cynnwys:

1. **Cyfleu'r strategaeth hon i'r Adran a'i phartneriaid, Cynghorwyr – staff eraill sy'n gweithio'n uniongyrchol / yn anuniongyrchol gyda'r adran neu yn ei chefnogi.**

2. **Ymgorffori'r gwerthoedd a safonau canllaw yng ngwaith yr Adran.**

3. **Coethi'r seilwaith cyfranogi a chynnwys presennol yn yr Adran a chyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn gydgysylltiedig ac yn gallu rhannu gwybodaeth, arferion da ac osgoi ailadrodd ymdrechion.**

4. **Llunio mesurau perfformiad ar gyfer holl Gynlluniau Busnes gwasanaethau i nodi sut mae defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i fod yn rhan o gyflenwi, cynllunio a datblygu gwasanaethau.**

5. **Cloriannu ac arolygu'r seilwaith cyfranogi a chynnwys o ran ei effeithiolrwydd a'r cydraddoldeb yn ei brosesau.**

14. Proses Newid Strategol

2008/2009

- **Cyfleu'r strategaeth i:**
  - **Staff**
  - **Darparwyr Preifat**
  - **Defnyddwyr Gwasanaethau**
  - **Gofalwyr**
  - **Partneriaid**
  - **Cynghorwyr**
  - **Corfforaethol**
- **Datblygu Canllawiau Archwilio a Chist Offer P&I**
- **Datblygu cysylltiadau â DEG – adolygu trefniadau arolygu**
- **Rheolwyr Gwasanaeth yn Archwilio Gweithgareddau P&I ac yn datblygu cynlluniau**
- **Cynnwys dangosyddion perfformiad P&I mewn Cynlluniau Busnes**
- **Adolygu dangosyddion perfformiad mewn Cynlluniau Busnes**
- **Adolygu trefniadau arolygu cydraddoldeb**
- **Atgyfnerthu seilwaith i gael y P&I eithaf**
- **Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant**
- **Adolygu trefniadau gwobrwyo a chydnabod**

2009/2010

- **Cynnwys dangosyddion perfformiad P&I mewn Cynlluniau Busnes**
- **Adolygiad chwarterol o ddangosyddion perfformiad mewn Cynlluniau Busnes**
- **Adolygu trefniadau arolygu cydraddoldeb**
- **Adolygu Canllawiau a Chist Offer Archwilio**
- **Gweithredu cynllun hyfforddiant ar gyfer:**
  - **Staff**
  - **Darparwyr Preifat**
  - **Cynghorwyr**
  - **Defnyddwyr Gwasanaethau**
  - **Gofalwyr**
  - **3ydd Sector**
- **Cloriannu cyfnod canol Strategaeth P&I**
- **Coethi seilwaith i gael y P&I eithaf**
- **Hysbysu gweithgareddau a buddiannau P&I i Aelodau'r Adran, Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr**

2010/2011

- **Cynnwys dangosyddion perfformiad P&I mewn Cynlluniau Busnes**
- **Adolygiad chwarterol o ddangosyddion perfformiad mewn Cynlluniau Busnes**
- **Adolygu trefniadau arolygu cydraddoldeb**
- **Rheolwyr Gwasanaeth yn Archwilio Gweithgareddau P&I ac yn datblygu cynlluniau**
- **Adolygu effaith Strategaeth P&I ar:**
  - **Seilwaith**
  - **Hyfforddiant**
  - **Cynllunio Busnes**
- **Hysbysu gweithgareddau a buddiannau P&I i Aelodau'r Adran, Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr**
- **Cloriannu canlyniadau Strategaeth P&I 2008-2011**
- **Datblygu strategaeth newydd mewn partneriaeth â sefydliadau statudol eraill**

15. Cynllun Gweithredu

Amcan 1. Sicrhau bod gwerthoedd cyfranogi a chynnwys yn cael eu dangos gan weithlu gwaith gofal cymdeithasol yn ei holl weithgareddau.			
Cam Gweithredu	**Mesur / Targed**	**Amserlen**	**Yn Gyfrifol**
Bydd y Strategaeth yn yn cael ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol.	Rhoi cyhoeddusrwydd i safonau a gwerthoedd yr adran yn Cyswllt a Thaflenni Newyddion lleol y 3ydd Sector. Bydd y strategaeth yn cael ei chyhoeddi ar y fewnrwyd a'r rhyngrwyd.	Gorffennaf 08	MP
	Cyflwyno'r Strategaeth Gyfranogi a Chynnwys i reolwyr a sefydliadau partner.	Ebrill – Mai 08	MP
Sicrhau bod gan staff y sgiliau i hyrwyddo a datblygu cyfranogi a chynnwys yn yr Adran.	Cynhyrchu Canllawiau P&I Cynhyrchu Cist Offer Archwilio i nodi gweithgareddau P&I ac anghenion hyfforddiant ac adnoddau.	Mehefin 08	MP
	Datblygu cyfarwyddyd hyfforddiant a datblygiad P&I ar gyfer staff.	Mehefin 08	MP
	Datblygu cyfarwyddyd hyfforddiant P&I ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.	Mehefin 08	MP / 3ydd Parti
	Cynnal seminarau cyfarwyddo ar gyfer staff ar y Strategaeth a'i nodau ac amcanion.	Gorffennaf – Awst 08	MP
	Adran Hyfforddiant i adolygu anghenion a nodwyd gan staff trwy ddefnyddio'r Gist Offer ac ymgorffori yn Rhaglen Hyfforddi 2009-10.	Ionawr 09	Dave Palmer
	Cyflwyno hyfforddiant staff	Ebrill 09 ymlaen	Dave Palmer
Cynhyrchu ac adolygiadau gwybodaeth am ein gwasanaethau fydd yn cynnwys sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.	Nifer yr achlysuron y cynhwyswyd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn cynyrchiadau gwybodaeth gyhoeddus. Bydd gweithgor amlasiantaethol yn cael ei sefydlu i ddatblygu cyfundrefnau ar y cyd ar gyfer cynhyrchu a lledaenu hysbysrwydd cyhoeddus.	Mawrth 09	PMU
Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn hyfforddiant staff.	Adran Hyfforddiant i adolygu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn hyfforddiant. Cynhyrchu cynllun i gynyddu nifer ac amrywiaeth dulliau cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn hyfforddiant.	Ionawr 09 March 09	Dave Palmer

Cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn denu staff pan fo hynny'n briodol.	Adnoddau Dynol i adolygu cyfranogiad presennol defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn denu staff. Cynhyrchu cynllun i gynyddu cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr mewn denu staff.	Ionawr 09 Mawrth 09	Dave Palmer
	Nifer y defnyddwyr gwasanaethau a hyfforddwyd mewn trefnau denu staff. Nifer y defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn ymwneud â gweithgareddau denu staff.	Blynyddol	Gwasanaethau Cefnogi Taliadau Uniongyrchol Margaret Gregory / Anableddau Dysgu Clive Lloyd Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol Rheolwyr i nodi lle gall defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr ymwneud â denu staff.
Cyfranogi mewn Caffael	Faint o waith caffael oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Nodi maint ymgysylltiad / cyfranogiad gwahanol grwpiau.	Blynyddol	Tîm Contractau

Amcan 2. Datblygu seilwaith cydgysylltiedig a hygyrch fel bod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn cael eu cynnwys a chyfranogi mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.			
Cam Gweithredu	**Mesur / Targed**	**Amserlen**	**Yn Gyfrifol**
Atgyfnerthu seilwaith P&I i gefnogi gweithredu Strategaeth P&I yr Adran.	Adroddiad chwarterol i'w lunio gan y Grŵp Arolygu Atborth Sicrhau Ansawdd (QAMFG) ar gynnydd gweithgareddau P&I ar draws yr Adran. Adroddiad blynyddol i'w lunio ar gyfer DEG yn nodi maint ymgysylltiad / cyfranogiad gwahanol grwpiau. Bydd QAMFG yn cydgysylltu cyhoeddi gweithgareddau P&I a gwybodaeth a gafwyd ar draws yr Adran, aelodau a'r cyfryngau.	Cyfredol	PMU / QAMFG
	Adolygu a diwygio contractau gyda darparwyr gwasanaethau.	Rhagfyr 08	MP a Rheolwyr Gwasanaeth
Datblygu a mabwysiadu polisi gwobrwyo a chydnabod gan yr Adran.	HSC&W i ddatblygu polisi gwobrwyo a chydnabod defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n cyfranogi mewn ymgynghori a chynllunio gwasanaethau.	Ebrill 08/ -	HSC&W

Amcan 3. Sicrhau bod y sylwadau y bydd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn eu rhannu gyda ni'n dylanwadu ar waith yr Adran a datblygiadau gwasanaeth.			
Cam Gweithredu	**Mesur / Targed**	**Amserlen**	**Yn Gyfrifol**
Datblygu trefn arolygu ar gyfer cloriannu gwelliannau mewn cyfranogiad a chynnwys yn yr Adran.	Archwilio gweithgareddau a strwythur P&I a datblygu'r Cynllun P&I	Medi – Hydref 08	Rheolwyr Gwasanaeth
	Cynnwys dangosyddion perfformiad P&I mewn Cynlluniau Busnes	Ebrill 08 – Mawrth 11	Uwch-reolwyr
	Cynnwys adolygiad chwarterol o ddangosyddion perfformiad mewn Cynlluniau Busnes	Chwarterol	PMU
	Adolygu cynnydd gweithgareddau P&I ar gyfer Cynllun Busnes diwedd y flwyddyn	Blynyddol	Uwch-reolwyr / PMU
	Archwilio gweithgareddau P&I yn barod ar gyfer Cynlluniau busnes	Ionawr 09 – Ionawr 11	Rheolwyr Gwasanaeth a Thimau
	Adolygu perfformiad canol blwyddyn o Amcanion Cynlluniau Busnes P&I	Hydref 09 – Hydref 10	Rheolwyr Gwasanaeth a Thimau
Datblygu proses arolygu cydraddoldeb ar gyfer nodi maint ymgysylltiad / cyfranogiad gwahanol grwpiau.	Sefydlu trefnau arolygu cydraddoldeb ethnig, y rhywiau, anabledd, oed ac arall i weld a yw cyfranogiad yn cyrraedd y rhai y mae'r Adran wedi ymrwymo i'w cyrraedd Sefydlu Trefn Arolygu Cydraddoldeb Dadansoddi data i weld a yw grwpiau a chymunedau'n cael eu cau allan	Hydref 08 Hydref 08 Mawrth 09	DEG QAMFG QAMFG/DEG
Seilio datblygiadau gwasanaeth ar ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.	Ar gyfer pob prosiect a strategaeth, bydd cynllun cyfranogiad rhanddeiliaid yn bodoli Bydd gofyn i hyn fanylu % a maint cyfranogiad grwpiau arbennig	Cyfredol	Rheolwyr Gwasanaeth a Rheolwyr Prosiectau
Asesu effaith y strategaeth gyfranogi a chynnwys yn yr Adran.	Crynhoi hunanasesiadau timau adrannol fel adolygiad man canol o'r strategaeth	Ebrill 09 – Ebrill 11	Archwiliad
	Adolygu cist offer Cynllunio P&I a Chanllawiau P&I.	Ebrill 09 a Mawrth 11	PMU

16. Asesu Risg

The “Quality Assurance Monitoring Feedback Group” is responsible for monitoring the delivery of the “Strategy” through its “Action Plan” and evaluating its effectiveness. The evaluations will take place on a quarterly and annual basis. There are a number of issues that are a risk to the delivery of the Strategy.

Risgiau	Uchel	Canolig	Isel	Camau Gweithredu
Fel strategaeth newydd mae perygl na fydd y staff yn cymryd perchenogaeth ef.	X			Bydd pwysigrwydd nodau ac amcanion, gwerthoedd a safonau’r Strategaeth Cyfranogiad a Chynnwys yn cael cyhoeddusrwydd drwy’r holl Adran.
Sgôr ar ôl camau gweithredu		X		I’w arolygu gan y Grŵp Atborth Arolygu Sicrwydd Ansawdd (QAMFG).
Peidio ag archwilio cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau mewn meysydd gwasanaeth a sefydlu strwythur priodol i hyrwyddo cyfranogiad ystyrlon.	X			Bydd Rheolwyr Gwasanaeth yn cael cist offer archwilio a chynllunio. Bydd rheolwyr yn cael hyfforddiant mewn materion P&I a defnyddio’r gist offer archwilio a chynllunio. Bydd QAMFG yn adolygu’r strwythurau P&I sy’n cael eu sefydlu.
Sgôr ar ôl camau gweithredu		X		I’w arolygu gan QAMFG.
Staff heb ddeall eu swyddogaeth a heb y sgiliau angenrheidiol i gymryd rhan mewn gweithgareddau P&A.	X			Bydd Staff yn cael cyfarwyddyd ar y Strategaeth P&I. Bydd staff sy’n arwain gweithgareddau P&I yn cael hyfforddiant. Bydd Canllawiau P&I yn cael eu darparu
Sgôr ar ôl camau gweithredu		X		I’w arolygu gan QAMFG.
Peidio â rhannu’r wybodaeth briodol drwy’r Adran.	X			Bydd rheolwyr gwasanaeth yn sefydlu trefnau hysbysu yn eu meysydd gwasanaeth. Bydd rheolwyr gwasanaeth yn atebol i QAMFG fydd yn rhoi cyfarwyddyd ar atborth.
Sgôr ar ôl camau gweithredu		X		I’w arolygu gan QAMFG.
Cynnal lefelau staffio ac adnoddau priodol i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.		X		Mae hwn yn berygl parhaol fydd yn cael ei reoli gan uwch-reolwyr wrth gyflwyno eu Cynlluniau Busnes.
Sgôr ar ôl camau gweithredu		X		I’w arolygu gan QAMFG.
Peidio â sicrhau bod holl grwpiau’n cyfranogi oherwydd diffyg agwedd drefnus	X			QAMFG i sefydlu trefn arolygu cydraddoldeb i’w adolygu bob blwyddyn a’r canfyddiadau’n cael eu hysbysu i’r Grŵp Cydraddoldeb Adrannol.
Sgôr ar ôl camau gweithredu		X		I’w arolygu gan QAMFG.

17. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae fframwaith cyfreithiol cydraddoldeb yn gymhleth a manwl ond, yn gryno, rhaid i gyrff cyhoeddus beidio â chamwahaniaethu fel cyflogwyr neu ddarparwyr gwasanaethau. Rhaid i ni sicrhau fod ein gwasanaethau'n cael eu darparu'n deg a heb duedd.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio hyrwyddo cyfle cyfartal trwy chwalu rhwystrau i gyfranogiad a rhoi grym i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu teuluoedd a gofalwyr i ddweud eu dweud a chyfranogi mewn materion all effeithio arnynt. Ein nod yw sicrhau fod cyfranogiad mor gynhwysol ag y bo modd a bod anghenion grwpiau prif ffrwd a lleiafrifol yn cael eu hystyried yn llawn.

Un ffordd sydd gennym o nodi pa rwystrau all fod yw cydnabod anghenion pobl wahanol ac ystyried a ydynt yn cael sylw digonol. Un ffordd y gwnawn hyn yw trwy wneud asesiad effaith.

Fel arfer bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn dechrau gyda pholisi, cynllun neu strategaeth newydd ac yna'n parhau drwy gydol ei oes trwy arolygu ac adolygu parhaol er mwyn i ni allu deall yn llawn sut mae'n gweithio'n ymarferol a sut mae'n effeithio ar y cyhoedd.

Yn achos y Strategaeth Gyfranogi a Chynnwys hon bu asesu effaith yn rhan annatod o'r broses ddatblygu a bu nifer mawr o bobl yn ymwneud â llunio'r Strategaeth.

Cwblhawyd asesiad ffurfiol gyferbyn â'r dyletswyddau cydraddoldeb sydd ar gyrff cyhoeddus dan Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000, Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 2005 a dyletswydd y rhywiau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Mae copi ar gael ar gais.

Ystyriodd yr asesiad fod perthnasedd y Strategaeth hon yn "uchel" o ran y dyletswyddau cydraddoldeb ac, o ganlyniad, bydd trefniadau arolygu cydraddoldeb effeithiol ac ystyrlon yn cael eu sefydlu i sicrhau y gallwn ddeall yn llwyr a yw'r strategaeth hon yn gweithio fel y bwriadwyd drwy gydol ei hoes, ac a yw ei nodau ac amcanion yn cael eu cyflawni.

18. Llyfryddiaeth:

Beecham, Syr Jeremy (2006) *Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd. Adolygiad o Gyflenwi Gwasanaethau Lleol,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

CSSIW Llyfr gwaith rheoli perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru http://wales.gov.uk/cssiwsubsite/cssiw/publications/localauthinspreports/PerformanceEvaluation/Performance_management?lang=en

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *"Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion: Nerth mewn Partneriaeth 2 Drafft Ymgynghori – Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr mewn Dylunio, Cynllunio, Darparu a Gwerthuso Gwasanaethau Iechyd Meddwl"* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Tu Hwnt i Rwystrau: Nodi amgylchiadau ar gyfer mewnosod cyfranogiad effeithiol y cyhoedd,* Abertawe: Opinion Research Services Prifysgol Cymru, Abertawe

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru dros y Degawd Nesaf*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) "Datganiad ar Bolisi ac Arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu" Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *"Codi'r Safon" Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Diwygiedig a Chynllun Gweithredu i Ddarparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Oedolion yng Nghymru"* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Creu'r Cysylltiadau: Cyflawni Ar Draws Ffiniau,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Cynnwys y Cyhoedd mewn Penderfyniadau – Llais y Dinesydd: bod Pobl sy'n Byw yng Nghymru Eisiau Cyfranogi mewn Gwasanaethau Cyhoeddus,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Cynllun Oes: Creu Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r Radd Flaenaf i Gymru yn yr 21ain ganrif.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *"Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion: Nerth Mewn Partneriaeth – Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr mewn Dylunio, Cynllunio, Darparu a Gwerthuso Gwasanaethau Iechyd Meddwl"* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) "Strategaeth Anabledd Dysgu: Adran 7 Cyfarwyddyd ar Egwyddorion Gwasanaeth ac Adnoddau Gwasanaeth" Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru *(2003) Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Llywodraeth Cynulliad Cymru: Canllawiau Polisi,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru, (2003) *Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (gyda chyngor Derek Wanless)* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) *Cymru: Gwlad Well. Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.